PWYLLGOR CYMRU Y GWASANAETH CYFREITHIOL CYMUNEDOL (CLS)

Cofnodion y Cyfarfod Dechreuol a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2007 yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, Bae Caerdydd

Presennol: Tom Jones, Comisiynydd Cymru, LSC (Cadeirydd)
Syr Michael Bichard, Cadeirydd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
Crispin Passmore, Cyfarwyddwr y CLS, LSC
Maria Battle, Comisiynydd Plant Cymru
Nich Pearson, Cyngor Defnyddwyr Cymru
Sian West, Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMs)
Naomi Alleyne, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Anne Stephenson, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Dafydd Ifans, CAFCASS Cymru
Nick Chibnall, Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi (HMCS)
Paul Davies, Cyfarwyddwr Cymru, LSC
Paul Newell, Pennaeth Polisi Sifil (heblaw teulu), LSC
Tiana Williams, Datbygydd Polisi Cymru, LSC

Ynghyd â: Nigel Balmer, Canolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol
Lisa James, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Ymddiheuriadau am Absenoldeb: Ceri Doyle – Cronfa'r Loteri Fawr, Dr Neil Wooding – Comisiwn Cydraddoldeb a Hawiau Dynol, Pascoe Pleasance – Canolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol.

1.	**Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Chroeso** Croesawodd Tom bawb i gyfarfod cyntaf Pwyllgor Cymru ac amlinellodd ei weledigaeth ar gyfer ei rôl yn natblygiad y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol ar gyfer pobl Cymru. Nododd ei ddiolch i Bob Chapman a Simon Pickthall o'r LSC am eu holl waith yn cael y Pwyllgor i'r cam o gael ei gyfarfod cyntaf. Nododd y Pwyllgor na fyddai Ceri Doyle mwyach mewn sefyllfa i fod yn aelod o'r Pwyllgor ond y byddai'n croesawu trafodaeth gydag ef am gyllid a chomisiynu. Nodwyd fod y strwythurau ar gyfer enwebu cynrychiolydd o SOLACE wedi eu gohirio, ac y ceir eglurhad am gynrychiolydd maes o law.	
2.	**Lansio'r Pwyllgor** Croesawodd Syr Michael bawb oedd yn bresennol i gyfarfod dechreuol Pwyllgor Cymru y CLS. Diolchodd i bawb am fynychu a theimlai y byddai'n ddefnydd gwerthfawr o amser. Datganodd Syr Michael fod y Pwyllgor wedi'i lansio. Amlinellodd bwysigrwydd cymorth cyfreithiol fel rhan o'r wladwriaeth les a'i effaith ar lawer o bobl difreintiedig mewn cymdeithas. Nodwyd fod cymorth cyfreithiol yn newid yn gyflym a bod y newidiadau yn ddadleuol. Croesawodd adborth am sut mae'n gweithio yn y fan a'r lle ac yn effeithio ar bobl yng Nghymru, yn ychwanegol â	

	darparwyr yn cyflenwi'r gwasanaeth. Nodwyd fod symud tuag at system farchnad-seiliedig ac y byddai angen i'r Comisiwn gydweithio gymaint ag sydd modd gyda rhanddeiliaid allweddol i wneud yr adnoddau sydd ar gael yn fwy effeithiol. Roedd angen edrych ar achosion gwraidd problemau a dylanwadu arnynt. Yn fwy aml na pheidio, roedd sefydliadau yn rhannu cleientiaid ac ni all un sefydliad ar ben eu hunain ddatrys problemau cleientiaid. Roedd angen canolbwyntio ar rai cynlluniau penodol a fyddai'n gwneud gwasanaethau yn well i gleientiaid, drwy gyd-gomisiynu gwasanaethau cynghori ac wrth gynllunio gwasanaethau ar gyfer Cymru. Oherwydd yr amgylchedd polisi gwahanol yng Nghymru, dywedodd Syr Michael fod angen clywed llais Cymru a sicrhau ei fod yn cael ei fwydo'n ôl i'r Comisiwn.	
3.	**Cyflwyno Aelodau a gwaith eu sefydliadau** • Amlinellodd Sian West rôl NOMs mewn comisiynu gwasanaethau i droseddwyr a gyflenwir drwy saith llwybr penodol. • Dywedodd Dafydd Ifans fod CAFCASS Cymru yn sefydliad gyda ffocws plant a'i fod wedi dod yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 1 Ebrill 2005. • Cadarnhaodd Paul Davies mai ef oedd Cyfarwyddwr Cymru yn y Comisiwn. • Teimlai Crispin Passmore, Cyfarwyddwr y CLS (yn gyfrifol am gymorth cyfreithiol sifil) fod y Pwyllgor yn rhoi cyfrwng ar gyfer ymgysylltu gyda sefydliadau i helpu cleientiaid mewn ffordd na fedrir ei chyflenwi drwy weithio ar ben eu hun. Rhagwelodd y byddai'r Pwyllgor yn cael dylanwad sylweddol ar yr LSC wrth ddatblygu gwasanaethau. • Dywedodd Maria Battle fod swyddfa Comisiynydd Plant Cymru yn tueddu i ddod i gysylltiad â phlant lle'r oedd gwasanaethau'n methu, felly roedd ganddo syniad da am lle'r oedd angen mynd i'r afael â phroblemau. • Hysbysodd Naomi Alleyne y Pwyllgor fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol ar agenda cydweithio ac yn gweithio tuag at ymagwedd ranbarthol. • Cadarnhaodd Anne Stephenson mai hi oedd Pennaeth y Gyfarwyddiaeth Cymunedau yn Llywodraeth Cynulliad Cymru ac mae ei phrif rôl oedd cynrychioli Llywodraeth y Cynulliad mewn meysydd gwaith heb eu datganoli. Roedd meysydd polisi eraill yn ei phortffolio yn cynnwys lloches a ffoaduriaid, arwain ar dlodi plant a bod yn lladmerydd dros rôl y sector gwirfoddol mewn gwaith yng Nghymru. • Dywedodd Nick Chibnall fod Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi (HMCS) yn gyfrifol am weinyddu holl lysoedd Cymru. Dywedodd nad oedd hyn yn cynnwys tribiwnlysoedd yng Nghymru ac y medrai hyn fod yn rhywbeth y byddai'r Pwyllgor yn dymuno ei ystyried. • Cadarnhaodd Nigel Balmer ei fod yn gweithio yn y Ganolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol, sef adran ymchwil annibynnol y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (LSC). Fe'i sefydlwyd yn 1996 i lywio polisi	

	cymorth cyfreithiol ac ad-drefnu. Mae ganddo gylch gorchwyl eang i gynnal ymchwil strategol yn y meysydd cyfiawnder sifil a throseddol. • Dywedodd Nich Pearson mai Cyngor Defnyddwyr Cymru oedd y corff ymchwil a lobio ar gyfer defnyddwyr yng Nghymru.	
4.	**Rôl Pwyllgor Cymru a'i berthynas gyda Grŵp Rhanddeiliaid CLS Lloegr a Chymru** 4.1 Amlinellodd Crispin pam y sefydlwyd Pwyllgor ar gyfer Cymru. Roedd y Ddeddf Mynediad i Gyfiawnder yn amlinellu'r cyfrifoldeb i'r Comisiwn reoli a chyflenwi cymorth cyfreithiol, i ddeall angen ac i hwyluso cynllunio ar y cyd. 4.2 Yn hanesyddol roedd cymorth cyfreithiol sifil wedi ei yrru gan gyfreithwyr mewn practis preifat ac fe'i gwelir yn awr fel gwasanaeth cyhoeddus. Ers dechreuad yr LSC ym mis Ebrill 2000, roedd wedi dechrau bod â'r rôl o gomisiynu gwasanaethau a datblygu'r CLS. Ers hynny cymerwyd llawer o gyfeiriadau wrth ymchwilio ei rôl. Roedd y Comisiwn yn aml wedi gweithredu mewn seilo, oedd wedi achosi anawsterau i ddarparwyr wrth gyflenwi eu gwasanaethau. 4.3 Cyhoeddwyd Strategaeth y CLS ym mis Mawrth 2006. Mae'n canolbwyntio ar gyflenwi gwasanaethau integredig, yn adlewyrchu anghenion a phatrymau cleientiaid. Roedd integreiddio gyda darpariaeth cyngor arall a ariannwyd gan eraill yn allweddol yn ychwanegol at integreiddio gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill, gan wneud yn siŵr fod gwasanaethau craidd yn ddigon hyblyg i wahanol gleientiaid. 4.4 Roedd y Ganolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol yn rhoi sylfaen tystiolaeth wirioneddol ar gyfer deall problemau sy'n wynebu cleientiaid. Y gwasanaethau cyhoeddus gorau fyddai'r rhai sy'n ddigon hyblyg i gyflawni'r holl faterion sy'n wynebu cleientiaid. 4.5 Wrth hwyluso cynllunio ar y cyd, byddai'r Comisiwn yn dod ynghyd ag arianwyr ac asiantaethau allweddol i ymchwilio cyfleoedd ar gyfer cyd-gomisiynu a chronni cyllidebau, yn ogystal ag edrych ar unrhyw amcanion oedd yn gwrthdaro ac yn gweithio yn erbyn ei gilydd. Roedd angen gwneud yn siŵr fod cymorth cyfreithiol sifil yn cael ei integreiddio gyda'r gwasanaethau eraill a ddarperir gan bob un o sefydliadau aelodau'r Pwyllgor a thu hwnt i feysydd megis iechyd ac addysg. 4.6 Cododd Anne bwynt am aelodaeth y Pwyllgor a theimlai ei bod yn bwysig o'r cychwyn cyntaf i ddeall yr amgylchedd polisi yng Nghymru. Un egwyddor a fu gan Lywodraeth y Cynulliad o'r cychwyn cyntaf oedd ymgyfraniad y sector gwirfoddol fel rhanddeiliad allweddol. Roedd wedi ceisio dyfnhau'r ymgyfraniad hwn drwy ymgynghoriad cyfredol ar ymgyfraniad y Trydydd Sector. Dywedodd Anne fod Edwina Hart AC wedi codi'r mater hwn cyn y cyfarfod, y consyrn dechreuol oedd mai dim ond Pwyllgor o gyllidwyr oedd ac felly nad oedd yn addas i Gymru.	

4.7 Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai Cadeirydd Pwyllgor Cymru yn trafod hyn ymhellach gyda'r sector gwirfoddol. Roedd y Comisiwn yn gwerthfawrogi rôl y sector gwirfoddol a byddai'n parhau i fuddsoddi ynddo.

4.8 Cadarnhaodd Tom mai'r cynlluniau cyfredol oedd i'r Pwyllgor gwrdd ddwywaith y flwyddyn ar gyfer trafodaethau ar gomisiynu ac y byddai'n cwrdd yn ffurfiol gyda chynrychiolwyr cyflenwyr a chleientiaid o leiaf unwaith y flwyddyn. Teimlai y byddai angen ystyried cydbwysedd y Pwyllgor gan nad oedd cynrychiolaeth iechyd arno ar hyn o bryd.

4.9 Roedd CLILC a NOMS yn cymeradwyo'r pwynt a godwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch y sector gwirfoddol.

4.10 Dywedodd Anne yr ystyrid ei bod yn gadarnhaol iawn fod agweddau Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn cyfateb rhai Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth fod eisiau ymateb i anghenion dinasyddion a chael y gwerth gorau am arian, a oedd yn ymagwedd a adlewyrchir yng Nghymru.

4.11 Holodd Nich os oedd yr Alban yn cymryd yr un ymagwedd. Cadarnhawyd fod hyn yn llwyr yn ymagwedd Lloegr a Chymru. Ffurfiwyd rhai cysylltiadau gyda Gogledd Iwerddon, yn ychwanegol at ddialog gyda systemau cymorth cyfreithiol eraill ar draws y byd.

4.12 Cadarnhaodd Tom y byddai'n hoffi medru monitro datganoli fel proses ac erbyn diwedd y flwyddyn i fod â syniad clir am sut i fonitro angen cleientiaid ar y cyd, er mwyn canfod ffordd i dynnu hyn ynghyd am ymagwedd gredadwy yn seiliedig ar ymchwil. Teimlai fod angen canfod y ffordd orau i gyflenwi gwasanaethau cynghori ac i ddeall beth sy'n gweithio'n dda ar gyfer grwpiau cleient neilltuol i fwydo i mewn wrth gomisiynu gwasanaethau.

4.13 Holodd Nick os oedd hyn yn awgrymu y medrid datblygu datrysiadau gwahanol ar gyfer Cymru wrth gyflenwi gwasanaethau cynghori. Cadarnhaodd Tom fod Carter eisoes wedi dweud na fedrai un maint ffitio pawb. Cytunodd Syr Michael nad oedd unrhyw reswm pam na fedrai Cymru wneud trefniadau neilltuol. Mynediad, ansawdd, canlyniadau a gwerth oedd y ffocws allweddol. Ni fyddai'r Comisiwn yn anhyblyg am y dull cyflenwi ond byddai'n gofyn cwestiynau am werth am arian.

4.14 Dywedodd Naomi ei bod yn bwysig cael cyfle i ddysgu o'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn Lloegr. Teimlai Crispin y byddai'n ddefnyddiol gwahodd unigolion o Ganolfan Cyngor Cyfreithiol Cymunedol Gateshead i gyfarfod yn y dyfodol.

5	**Y goblygiadau ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol a chynghori yn ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i "Creu'r Cysylltiadau - Cyflawni Ar Draws Ffiniau" - cyflwyniad gan Lisa James, Uned Creu'r Cysylltiadau, Llywodraeth Cynulliad Cymru** Rhoddodd Lisa gyflwyniad ar bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru a amlinellwyd yn Creu'r Cysylltiadau - Cyflawni Ar Draws Ffiniau. Mae copi o'r sleidiau yn amgaeedig. Nododd Tom y byddai angen edrych yn agos ar gystadleuaeth, yn neilltuol ar yr hyn y byddai tendro yn ei olygu i Gymru. Dywedodd Crispin nad oedd hyn yn her newydd i'r Comisiwn. Roedd gwahanol farn am dendro yn Lloegr ac roedd y Comisiwn wedi medru trafod ffordd gytûn ymlaen gydag atebolrwydd, ac mewn ffordd oedd yn cyd-fynd â'r hyn oedd ei angen ar gyfer y cleient. Cadarnhaodd Lisa fod polisi yn dod yn gynyddol wahanol ym meysydd Addysg ac Iechyd i'r polisi yn Lloegr. Diolchwyd i Lisa am ei chyflwyniad defnyddiol.	
6	**Diweddariad ar waith yr LSC yng Nghymru** 6.1 Dywedodd Paul fod 376 contract yng Nghymru, gyda 29 ohonynt yn gontractau nid er elw. Gwerir £76m yng Nghymru ar hyn o bryd ar gyfer contractau sifil a throseddu gyda'i gilydd. Roedd 51,000 gweithred o gymorth yn digwydd bob blwyddyn ac roedd y Comisiwn ar y llwybr i gyrraedd y ffigur hwn eto yng Nghymru ar gyfer 06/07. Dywedwyd fod gwasgariad da ar draws y categorïau, gyda'r galw uchaf mewn Teulu, Dyled a Budd-daliadau Lles. Roedd mewnfudo a thrais yn y cartref yn flaenoriaeth uchel ar gyfer yr LSC yng Nghymru. 6.2 Darparwyd 12,000 gweithred o gymorth bob blwyddyn drwy CLS Direct, sy'n darparu cyngor ffôn arbenigol i bobl yn Lloegr a Chymru. Roedd y ffigur yn cynyddu a daeth y ddemograffeg yn ddiddorol, gan ddangos fod y defnydd uchaf gan y grŵp oedran canol-hŷn mewn dinasoedd. Y targed oedd cynyddu'r nifer hwn gan 50%. 6.3 Mae'r Comisiwn yng Nghymru wedi gweithio gyda Shelter Cymru i ariannu prosiect Information Matters. Roedd hyn yn cynnwys gweithwyr iechyd yn gweithio gyda chleientiaid bregus ac yn eu cyfeirio at gyngor llinell flaen neu ffôn neu at wasanaethau cefnogaeth eraill priodol. 6.4 Roedd y Comisiwn wedi ennill mynediad i gleientiaid yn y ddalfa drwy gyfnod anodd o weithredu diwydiannol. Roedd y broses wedi ei rheoli'n effeithlon er mwyn sicrhau nad oedd neb yn mynd heb gynrychiolaeth. 6.5 Dim ond am y gwaith a wneir y talir i ddarparwyr, ac mae hyn wedi helpu i sicrhau gwerth am arian. Yn ychwanegol, roedd symudiad i sicrhau y byddai pob cyflenwr yn cynnal eu busnes gyda'r LSC ar-lein a fyddai'n sicrhau effeithiolrwydd i bawb.	

6.6 Swyddfa Cymru sy'n gyfrifol am y Cynllun Iaith Gymraeg ac wedi ei ddatblygu ar draws y Comisiwn.

6.7 Staff yn swyddfa'r Comisiwn yng Nghaer sy'n gyfrifol am edrych ar ôl cyflenwyr a chysylltiadau yng Ngogledd Cymru.

6.8 Holodd Nick os oedd £76m yn anghymesur o'r gyllideb £2b. Dywedodd Crispin fod Carter wedi annog dyraniad rhesymegol ar draws y wlad. Roedd y Comisiwn wedi dechrau edrych ar hyn mewn cyfraith teulu a lles cymdeithasol drwy Dargedau Mynediad a gyhoeddir yn flynyddol ac y byddai'n pennu lefel cyllid yn unol â hynny. Roedd cyfraith lles cymdeithasol wedi symud o gael ei danariannu i fod ar darged, ac roedd symudiad i wneud hyn mewn meysydd eraill drwy ddatblygu'r modelau. Dywedodd Nick fod llawer iawn o anniddigrwydd am Carter a bod patrwm o gwmnïau bach yng Nghymru a deimlai dan fygythiad ohono. Roedd materion diwylliannol mewn llawer o gymunedau yng Nghymru a aiff tu hwnt i faterion economeg.

Cadarnhaodd Syr Michael mai mater i'r cyflenwyr oedd sut yr oeddent yn trefnu eu hunain. Yr unig faes lle nad oes hyblygrwydd fydd ansawdd. Roedd y Comisiwn yn frwd i ddatganoli mwy o feysydd i gyflenwyr a chydnabuwyd y byddai angen trosglwyddo llawer i'r sector, gan nad oedd yn gyfarwydd â newidiadau syfrdanol yn ei ddull o weithio. Rhagwelir y byddai'n cymryd peth amser i addasu.

Dywedodd Paul fod gwahanol ymagweddau'n cael eu cymryd gyda Troseddu a Sifil. Roedd ffranseisio wedi dod ag arbenigwyr mewn meysydd penodol o waith. Y nod gyda sifil oedd dod ynghyd ag arbenigwyr i gyflenwi ystod lawn o wasanaethau i gleientiaid. Drwy gomisiynu gwasanaethu ar y cyd, byddent yn cynnwys yr ystod lawnach o wasanaethau o help cyffredinol, ac arbenigol i dribiwnlysoedd ac ar gyfer cleientiaid heb fod yn gymwys.

Dywedodd Nick fod yr hyn a gynigir yn rhoi cwmpas, fodd bynnag roedd yn parhau i boeni na chreir mwy o bellter i wasanaethau, felly'n cael yr effaith o ostwng gwasanaeth.

Teimlai Syr Michael y byddai angen monitro pwy oedd yn cyrchu gwasanaethau a lle, er mwyn ystyried unrhyw symudiad. Awgrymwyd ystyried Dangosyddion Perfformiad Allweddol i farnu os oedd y gwasanaeth yng Nghymru yn gwella. Cytunwyd trafod Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn y cyfarfod nesaf.

6.9 Dywedodd MB fod y defnydd o wasanaethau ffôn gan blant yn isel iawn. Nododd y Pwyllgor fod cynllun yn Birmingham gydag un llinell ffôn ar gyfer plant dan arweiniad NYAS ac a ariannwyd gan awdurdodau lleol. Roedd yn costio £250,000 y flwyddyn i'w redeg ar ôl ei sefydlu. Roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda Heddlu De Cymru i lunio model ond byddai wedyn angen sicrhau cyllid. Nodwyd yr estynnwyd cynllun tebyg yn Efrog Newydd i gynnwys oedolion.

7	**Yr angen am gymorth cyfreithiol yng Nghymru - cyflwyniad ymchwil gan Nigel Balmer, Canolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol** Rhoddodd Nigel gyflwyniad i'r Pwyllgor am fodelu ardal fach a'r canfyddiadau o arolwg cyfiawnder sifil a chymdeithasol Lloegr a Chymru 2004. Amgaeir copi o'r sleidiau. 7.1 Nodwyd nad oedd y data ar gyfer amserau teithio yn adlewyrchu lle nad oedd trafnidiaeth gyhoeddus ar gael i bawb. 7.2 Cymerwyd mai'r pwynt canol Ardal Gor-allbwn Is oedd y pwynt ar gyfer mesur amser teithio. 7.3 Nodwyd y byddai arolwg gwledig penodol yn dynodi pa newidiadau a wnaiff unigolion. Edrychir ar bosibiliadau astudiaeth o'r fath. 7.4 Holwyd pa ganran o bobl nad oedd â mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus. Byddai Nigel yn rhoi'r wybodaeth hon yn dilyn y cyfarfod. 7.5 Dywedodd Crispin fod tystiolaeth gynyddol i ddangos y caiff ymddiriedaeth ei drosglwyddo. Ar ôl cynnal gwerthusiad o gyngor arian, dangosodd hyn fod pobl yn hoffi ac yn ymddiried mewn gwasanaethau allgymorth sydd wedi eu lleoli mewn mannau eraill. Yr her oedd cysylltu'r ymchwil gyda rhannu arfer gorau. Roedd angen cael gwared â'r gwahaniad rhwng cyngor technolegol a wyneb-i-wyneb ee cynadleddau fideo a ffonau fideo. Roedd angen deall os medrai weithio ac os nad yw, pam lai.	
8	**Trafodaeth Cylch Gorchwyl** Gofynnwyd i aelodau'r pwyllgor roi unrhyw sylwadau ar y drafft Gylch Gorchwyl i Crispin cyn y cyfarfod nesaf.	
9	**Rhaglen Waith 2007/08** Gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor i ddod yn ôl â phynciau ar gyfer gwaith presennol ac yn y dyfodol i'w drafod yn y cyfarfod nesaf. Byddai eitemau agenda yn agored i'r holl aelodau. Cynhelir y cyfarfod nesaf yng Nghaerdydd ddydd Gwener 8 Mehefin. Cadarnhawyd mai dyddiadau'r cyfarfodydd wedyn fyddai: Dydd Gwener, 14 Medi 2007 – Caerdydd Dydd Gwener, 7 Rhagfyr 2007 – Caerdydd	
10	**Unrhyw fater arall** 10.1 Nodwyd mai olynydd Anne yn ei swydd fyddai Caroline Turner, a fydd yn mynychu'r cyfarfod nesaf. Diolchwyd i Anne yn ffurfiol am ei holl gefnogaeth i'r LSC dros y 3 blynedd ddiwethaf.	
11	**Diwedd y Cyfarfod**	